

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Yr Adran Radiotherapi / Canolfan
Ganser Felindre / Ymddiriedolaeth
GIG Prifysgol Felindre

Dyddiad arolygu: 26 a 27

Tachwedd 2019

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	26
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio ..	33
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) o Adran Radiotherapi Canolfan Ganser Felindre, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ar 26 a 27 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch-swyddog Clinigol o grŵp Amlygiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion sy'n ymweld â'r adran radiotherapi i gael triniaeth.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig wedi cael eu datblygu er mwyn helpu'r staff i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 fel y maent yn gymwys i radiotherapi.

Nodwyd gennym y gellid gwneud rhagor o ymdrech i gydymffurfio â rhai o'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) yn llawn o ran hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg, hysbysu cleifion am unrhyw oedi a hysbysu cleifion yn well am weithdrefn gwyno'r Ymddiriedolaeth.

Nodwyd gennym hefyd y gellid gwneud gwelliannau o ran y ffordd y caiff trwyddedau sy'n ofynnol o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 eu llywodraethu a faint o fanylion a gofnodir mewn cofnodion hyfforddiant ar gyfer oncolegwyr clinigol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i gael a gwnaethant ganmol ymagwedd y staff
- Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cynhwysfawr wedi cael eu datblygu er mwyn helpu'r adran i gydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Roedd uwch-aelodau o'r staff yn croesawu ein harolygiad ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad
- Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau clir yn yr adran o ran rhoi gwybod am faterion rheoli ac atebolrwydd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio yn yr adran er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

- Hysbysu cleifion sy'n ymweld â'r adran yn well am amseroedd aros presennol a gweithdrefn gwyno'r Ymddiriedolaeth
- Y trefniadau llywodraethu o ran y trwyddedau sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Y manylion a gofnodir yng nghofnodion hyfforddiant oncolegwyr clinigol fel eu bod yn dangos cwmpas ymarfer unigolion yn glir.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Ganser Felindre yn darparu gofal oncoleg anllawfeddygol a gofal lliniarol i boblogaeth y de-ddwyrain a gwasanaethau cancer arbenigol iawn i gleifion o ranbarthau eraill Cymru.

Mae un o ganolfannau cancer mwyaf y DU ac mae'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae'r adran radiotherapi yn cynnwys adrannau cynllunio a thriniaeth. Mae ystafell fowldio hefyd wedi'i lleoli yn yr adran lle y caiff dyfeisiau arbennig eu gwneud i gleifion unigol y mae angen iddynt fod yn llonydd wrth gael triniaeth, e.e. cleifion sy'n cael triniaeth radiotherapi i'w pen neu i'w gwddf.

Rhoddir triniaeth drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar, gan gynnwys;

- cyflymwyr llinellol – a ddefnyddir i roi triniaeth o'r tu allan i'r corff drwy gyfeirio pelydrau ymbelydredd at ganser a'i ddinistrio
- uned arwynebol ac orthofolteidd – a ddefnyddir i roi triniaeth ar wyneb y croen neu'n agos i wyneb y croen, e.e. cancer y croen
- peiriant brachitherapi – a ddefnyddir i roi triniaeth o'r tu mewn i'r corff, e.e. ar gyfer cancer y prostad

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys oncolegwyr ymgynghorol, radiograffwyr therapiwtig, arbenigwyr ffiseg feddygol a gwyddonwyr clinigol.

Er hwylustod, cyfeirir at Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel yr 'Ymddiriedolaeth' yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar lefel y gwasanaeth a ddarperir gan y staff yn yr adran.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ac wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a bod y staff yn trin cleifion ag urddas.

Er bod anghenion cyfathrebu cleifion yn cael eu diwallu, nodwyd gennym y gellid gwneud newidiadau i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg. Nodwyd gennym hefyd y gellid gwneud rhagor o ymdrech i hysbysu cleifion am amseroedd aros a'r weithdrefn gwyno yn well.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd yr adran radiotherapi i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu sylwadau am y gwasanaeth a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd holiaduron hefyd i gleifion a oedd yn ymweld â'r adran yn ystod ein harolygiad. Cyflwynwyd cyfanswm o 26 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Gwasanaeth effeithlon a thosturiol iawn. Wedi'i drefnu a'i redeg yn dda"

"Mae'r gwasanaeth yn ardderchog, ond yn dangos arwyddion o straen ac mae angen mwy o fuddsoddi, peiriannau a staff"

"Roedd y gwasanaeth a gefais yn dda iawn ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus"

Mewn sylwadau gan un o'r cleifion cafodd aelod o'r staff ei ganmol yn benodol am y cymorth a'r tosturi a ddangoswyd tuag at berthynas y claf.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddi; ymysg y gwelliannau a awgrymwyd roedd y canlynol:

“Gallai fod yn gynhesach yn yr ardal driniaeth”

“Cyfleusterau newydd pan fydd Canolfan newydd Felindre yn agor!”

“O ran C2, byddai'n braf cael siarad yn Gymraeg am yr elfennau o'r driniaeth sy'n fwy personol/yn ymwneud â hunanofal. Byddwn yn dewis Saesneg ar gyfer yr agweddau mwy meddygol/technegol, yn bennaf oherwydd yr iaith arbenigol a phrinder gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg.”

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth i gleifion am sut y gallent ofalu am eu hiechyd eu hunain yn cael ei harddangos yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys taflenni ar y ffordd y gellid helpu pobl i roi'r gorau i smygu yn ogystal â thaflenni eraill a oedd yn arbennig o berthnasol i gleifion sy'n cael triniaeth radiotherapi.

Gwelsom bosteri wedi'u harddangos mewn mannau amlwg yn dweud wrth gleifion am bwysigrwydd rhoi gwybod i staff yr adran os oedd unrhyw bosibilrwydd y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig er mwyn atal niwed posibl i fabanod yn y groth o ganlyniad i belydrau ynni (ymbelydredd ïoneiddio) a ddefnyddir yn ystod triniaeth radiotherapi.

Yn yr un modd, gwelsom hefyd bosteri yn dweud wrth gleifion am roi gwybod i'r staff os oedd ganddynt reolydd y galon¹. Mae hyn yn bwysig am fod ymbelydredd ïoneiddio yn gallu achosi difrod i reolyddion y galon ac, o ganlyniad, ni fyddant yn gweithio'n iawn.

¹ Mae rheolydd y galon yn anfon curiadau trydanol i'r galon i'w chadw yn curo'n rheolaidd a ddim yn rhy araf.

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty ac roedd pob un o'r cleifion yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster eu hunain bob amser yn ystod apwyntiadau.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad. Dywedodd pob claf ond un wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu prawf neu eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Cadarnhaodd staff y dderbynfa fod ystafell breifat ar gael pe bai claf yn gofyn am gael siarad â'r staff yn breifat, yn hytrach nag wrth ddesg y dderbynfa.

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn holi am eu lles.

Gwelsom fod gynau urddas yn cael eu rhoi i gleifion pan oedd angen iddynt dynnu eu dillad yn ystod eu triniaeth. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo eu hurddas pan oeddent yn aros i gael eu trin ac yn ystod eu triniaeth.

Roedd ciwbiclau newid unigol i gleifion ar gael ger yr ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn rhoi preifatrwydd pan oedd angen i gleifion dynnu eu dillad a gwisgo gynau urddas cyn ac ar ôl eu triniaeth.

Roedd y mwyafrif o'r sylwadau gan y cleifion yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, efallai y dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried a oes angen gwelliant yn sgil y nifer bach o sylwadau a gawsom ar urddas a pharch cleifion a'r gallu i siarad â'r staff yn breifat.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt hwy eu hunain ar ôl eu triniaeth. Dywedodd pob claf ond un eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig o ran gyda phwy y dylid cysylltu i gael cyngor ar sgil-ffeithiau unrhyw driniaethau a gawsant.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir i ddeall risgiau a buddiannau eu hopsiynau o ran triniaeth.

Er bod y rhan fwyaf o sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn, efallai y dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried a oes angen gwelliant o ran rhoi manylion cyswllt ysgrifenedig i gleifion a'u cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y brif ardal aros. Roedd y rhain yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i gleifion sy'n cael triniaethau radiotherapi ac roeddent ar gael i gleifion eu cadw. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael gfael ar wybodaeth berthnasol y gallent gyfeirio ati gartref.

Roedd yr adran hefyd yn cynnal nosweithiau 'agored' am radiotherapi. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i gleifion a'u perthnasau ymweld â'r adran, cyfarfod â rhai aelodau o'r staff a gofyn cwestiynau cyn dechrau cael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd staff y dderbynfa fod dolen sain wedi'i gosod a'i bod yn helpu pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw wrth gyfathrebu â'r staff. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y gellid argraffu gwybodaeth ysgrifenedig mewn print bras i helpu'r rhai â phroblemau gyda'u golwg.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y llechi electronig a oedd yn cael eu defnyddio i helpu i gyfieithu gwybodaeth i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Y nod oedd gwella cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y fenter hon yn cael ei threialu a bod yr adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Gwelsom fod llawer o'r taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg o fewn mannau cyhoeddus yr adran y gallai cleifion siarad â'r staff yn Gymraeg pe dymunent. Roedd y sylwadau a wnaed yn un o'r holiaduron yn ategu'r hyn a welwyd gennym.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod nifer o'r staff, gan gynnwys radiograffwyr therapi a meddygon ymgynghorol, yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion a oedd am siarad â rhywun yn Gymraeg fel arfer yn hysbysu'r staff wrth wneud apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd uwch-aelodau o'r staff yn derbyn ein sylwadau ac yn cytuno y gellid hyrwyddo argaeledd staff

sy'n siarad Cymraeg o fewn yr adran yn well a thrwy hynny sicrhau 'Cynnig Rhagweithiol'².

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran er mwyn helpu i gyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol'.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt.

Dywedodd tua hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi aros mwy na 15 munud i gael eu prawf neu eu triniaeth. Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi cael gwybod adeg cyrraedd am faint o amser y byddynt yn debygol o orfod aros cyn cael eu prawf neu eu triniaeth.

Roedd sgrin fawr wedi'i lleoli yn y brif ardal aros a oedd yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a gawsom, dylai'r staff ystyried ffyrdd eraill o roi gwybod i gleifion am unrhyw oedi.

Pan fo oedi, esboniodd uwch-aelodau o'r staff fod hyn yn digwydd o ganlyniad i gyfarpar yn methu fel arfer.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hysbysu cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.

² Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

Mae'n un o egwyddorion allweddol 'Mwy na Geiriau', sef menter Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. <https://llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-iechyd-mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-i-2020>

Gofal Unigol

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefn ar gyfer ymateb i gwynion. Roedd trefniadau hefyd ar waith i'r cleifion roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r adran radiotherapi.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i godi pryder neu wneud cwyn am y gwasanaethau roeddent wedi'u cael. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dros draean nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny.

O ystyried y sylwadau a gawsom, dylid gwneud mwy o ymdrech i roi gwybod i gleifion am weithdrefn gwyno'r Ymddiriedolaeth.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y byddent yn ymdrin â chwynion ar unwaith (h.y. yn y fan a'r lle), pryd bynnag y bo modd, er mwyn helpu i ddatrys unrhyw broblemau mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hysbysu'r cleifion hynny sy'n defnyddio'r adran am weithdrefn gwyno'r Ymddiriedolaeth mewn ffordd well.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod yr adran radiotherapi yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radiotherapi.

Roedd yr adran yn lân ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt gael eu hamlygu i ymbelydredd. Roedd hon yn cwmpasu gwaith cynllunio ac amlygiad yn ystod triniaeth a thriniaethau cysylltiedig eraill. Y nod oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael yr amlygiad cywir ac mae hon yn un o'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir yr aelodau hynny o'r staff sy'n gyfrifol am adnabod cleifion yn gywir. Roedd disgwyl i'r staff ofyn i gleifion gadarnhau eu

henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad. Roedd hyn yn unol â chanllawiau presennol y DU³.

Roedd y weithdrefn hefyd yn disgrifio'r ffyrdd amgen y bydda'n rhaid i'r staff eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion ar lafar eu hunain, gan hyrwyddo diogelwch cleifion ymhellach.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu prawf neu eu triniaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion.

Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar gyfer holi ynglŷn â statws beichiogrwydd unigolyn, ar adeg cydsynio i radiotherapi, cyn amlygiadau cynllunio a chyn yr amlygiad cyntaf i roi triniaeth. Fel rhan o'r broses gydsynio, gofynnir hefyd i unigolion hysbysu'r staff ar unwaith os ydynt yn amau bod eu statws o ran beichiogrwydd wedi newid.

Y nod oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson. Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir y staff hynny a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac roedd yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd yn unol â chanllawiau'r DU⁴.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau o ran y weithdrefn uchod.

Amlygiadau i ddelweddu anfeddygol

³ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017 <https://www.gov.uk/government/publications/ionising-radiation-medical-exposure-regulations-2017-guidance>

⁴ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017. <https://www.gov.uk/government/publications/ionising-radiation-medical-exposure-regulations-2017-guidance>

Nid oedd amlygiadau anfeddygol⁵ yn cael eu cyflawni yn y clinig.

Roedd hyn wedi'i nodi'n glir ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith. Roedd trefniadau addas wedi'u nodi i sicrhau bod y rhain ar gael i'r rhai sydd â hawl i atgyfeirio o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Roedd y trefniadau ar gyfer atgyfeirio wedi'u disgrifio ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi.

Roedd protocolau clinigol cynhwysfawr ar gael i gefnogi'r gofyniad o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 i roi protocolau ysgrifenedig ar waith ar gyfer pob math o ymarfer radiotherapi safonol. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno fel protocolau ar gyfer rhannau penodol o'r corff (anatomegol) ac roeddent yn cynnwys manylion am y canllawiau atgyfeirio ar gyfer cynllunio a thriniaeth radiotherapi.

Roedd uwch-aelodau o'r staff yn derbyn ein sylwadau y dylid cyfeirio at y protocolau clinigol yn yr adran 'Atgyfeirio' o bolisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi.

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system addas ar waith i nodi gwahanol rolau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â cheisio triniaeth radiotherapi a'i darparu i gleifion. Roedd polisi'r cyflogwr ynglŷn â rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi yn nodi pwys, yn ôl

⁵ Mae amlygu unigolion i ddelweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

grwpiau o staff, a allai fod yn ymarferwyr⁶, yn weithredwyr⁷ ac yn atgyfeiriwyr⁸ (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Ym maes radiotherapi, yr un yw'r atgyfeiriwr a'r ymarferydd o bosibl, e.e. oncolegydd clinigol⁹. Un enghraifft o weithredwr sy'n gweithio mewn adran radiotherapi yw radiograffydd therapiwtig¹⁰, gwyddonydd clinigol neu oncolegydd clinigol.

Roedd disgwyl i'r staff sy'n gweithio yn yr adran radiotherapi gydymffurfio â gweithdrefnau'r cyflogwr. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi. Roedd y gweithdrefnau ar gael i'r staff yn electronig drwy system gyfrifiadurol yr adran. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff fynediad at gyfrifiadur. Roedd y staff yn cael eu hannog i beidio ag argraffu gweithdrefnau'r cyflogwr ac i'w darllen ar y sgrin. Roedd hyn yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r staff yn defnyddio gweithdrefnau a oedd 'wedi dyddio'. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y gweithdrefnau ar gael iddynt.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff system ar gyfer rhoi gwybod i'r staff am unrhyw newidiadau i weithdrefnau'r cyflogwr. Roedd hyn hefyd wedi'i nodi mewn polisi ysgrifenedig. Roedd hyn yn golygu anfon e-bost at aelodau unigol

⁶ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am amlygiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau amlygiadau meddygol.

⁷ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar amlygiad meddygol.

⁸ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer amlygiadau meddygol.

⁹ Meddygon sy'n defnyddio radiotherapi a chemotherapi i drin a rheoli cleifion â chanser yw oncolegwyr clinigol. Maent hefyd yn defnyddio nifer o driniaethau eraill i drin canser, heb ddefnyddio llawfeddygaeth.

¹⁰ Mae radiograffwyr therapiwtig yn defnyddio dosau o belydrau-x ac ymbelydredd Ïoneiddio arall i drin cyflyrau meddygol - canser a thyfiannau yn bennaf.

o'r staff yn manylu ar unrhyw weithdrefnau a oedd wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r system a oedd ar waith.

Cyfiawnhau Amlygiadau Meddygol Unigol

Roedd polisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau amlygiadau a'u hawdurdodi¹¹.

Roedd hwn yn nodi mai dim ond ymarferwyr â hawl a allai gyfiawnhau amlygiadau ac mai nhw oedd yn gyfrifol am lenwi pob ffurflen berthnasol er mwyn dangos bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd. Fodd bynnag, dylai gweithdrefnau'r cyflogwr hefyd ddisgrifio'n glir sut y dangosir awdurdodiad ar gyfer pob math o amlygiad:

- Amlygiadau cynllunio
- Amlygiadau dilysu
- Amlygiadau triniaeth
- Amlygiadau ailgynllunio

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion a oedd yn dangos bod amlygiadau wedi'u hawdurdodi (h.y. tystiolaeth o gyfiawnhau).

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gynnwys manylion yng ngweithdrefnau'r cyflogwr ynglŷn â sut y dangosir awdurdodiad ar gyfer pob math o amlygiad.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio¹² amlygiadau.

¹¹ Cyfiawnhau yw'r broses o bwyso a mesur manteision disgwylledig amlygiad yn erbyn y niwed y gallai'r amlygiad ei achosi i'r unigolyn hwnnw. Awdurdodi yw'r dystiolaeth bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd

Nodir y rhain ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi. Yn ogystal, roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith a oedd yn ymdrin ag optimeiddio ar wahanol adegau ar lwybr gofal y claf.

Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod y dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion o ganlyniad i amlygiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (a elwir hefyd yn ALARP).

Oherwydd y dosau uchel o ymbelydredd a roddir yn ystod radiotherapi, ni chaniateid i ofalwyr na chysurwyr¹³ fod yn bresennol yn ystod triniaethau am resymau diogelwch.

Lefelau cyfeirio diagnostig

O dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017, mae'n ofynnol pennu lefelau cyfeirio diagnostig¹⁴ ar gyfer archwiliadau radio-diagnostig. Nid yw hyn yn gymwys i amlygiadau cynllunio na thriniaeth radiotherapi.

Felly, nid yw'n ofynnol i'r cyflogwr lunio gweithdrefn yn hyn o beth ar gyfer y gwasanaeth radiotherapi.

Nodwyd hyn yn glir ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi.

¹² Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

¹³ O dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017, mae gofalwyr a chysurwyr yn unigolion sy'n cael eu hamlygu i ymbelydredd Ïoneiddio yn ymwybodol ac yn fwriadol wrth gefnogi a chysuro'r rhai sy'n cael eu hamlygu iddo.

¹⁴ Amcan lefelau cyfeirio diagnostig yw helpu i osgoi rhoi dosau gormodol o ymbelydredd i gleifion. Defnyddir lefelau cyfeirio diagnostig fel canllaw i helpu i hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer diogelu rhag ymbelydredd.

Pediatreg

Roedd gan y cyflogwr bolisi mewn perthynas â thriniaeth radiotherapi pediatrig (i blant) fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Y nod oedd paratoi plant ar gyfer eu triniaeth radiotherapi gan ystyried eu hanghenion gofal penodol. Roedd yn amlwg o'r polisi fod yr adran yn rhoi pwyslais ar roi cymorth a gwybodaeth am driniaeth i blant a'u teuluoedd.

Roedd plant yn cael eu trin a'u delweddu yn unol â phrotocolau pediatrig penodol. Roedd cynlluniau triniaeth i blant yn cael eu hoptimeiddio ar y cam cynllunio er mwyn sicrhau bod y dosau o ymbelydredd i'w rhoi mor isel â phosibl.

Roedd gan yr adran ardal aros benodol i blant. Roedd hon wrth ymyl y brif ardal aros ac roedd yn cynnwys detholiad o deganau priodol ar gyfer oedran y plant, y gallent chwarae â nhw wrth aros am eu triniaeth.

Gwerthuso clinigol

Roedd trefniadau ar waith i gynnal gwerthusiad¹⁵ clinigol o amlygiadau.

Roedd y rhain wedi'u nodi ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi. Roedd hyn wedi'i ategu gan weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer pob rhan o lwybr gofal y claf, gan gynnwys y sesiynau cynllunio, dilysu a thriniaeth.

Roedd trefniadau wedi'u disgrifio ac wedi'u dangos ar gyfer cofnodi canfyddiadau yng nghofnodion y cleifion.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran radiotherapi.

¹⁵ Mae gwerthusiadau clinigol yn bwysig er mwyn helpu i lywio'r cam nesaf yng ngofal a thriniaeth y claf.

Roedd y rhestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Gwelwyd sawl enghraifft o weithdrefnau ysgrifenedig lleol, cyfarwyddiadau gwaith, rhaglen Sicrhau Ansawdd, cofnodion o gyfarpar a chofnodion cyfarfodydd ar y safle i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Roedd dull o sicrhau ansawdd cyfarpar, a oedd yn cynnwys lefelau goddefiant a gweithredu wedi'u llywio gan ganllawiau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol a chanllawiau gweithgynhyrchwyr, wedi'i ddisgrifio.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Roedd mynediad gwastad at brif fynedfa'r ganolfan ac roedd yr adran radiotherapi ar y llawr gwaelod. Roedd hyn yn galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i ddod i mewn i'r adran a'i gadael yn ddiogel.

Roedd yr adran yn lân, ac nid oedd unrhyw rwystrau na pheryglon baglu amlwg ar y cyfan. Roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith er mwyn atal y rhai heb awdurdod rhag mynd i mewn i ardaloedd lle roedd cyfarpar radiotherapi yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau ar waith i atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid yr adran; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr adran yn lân iawn neu'n eithaf glân.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pob rhan o'r adran yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Esboniodd uwch-aelodau o'r staff fod cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid dwylo yn cael ei harchwilio'n rheolaidd drwy 'hyrwyddwyr hylendid dwylo' a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd fel y bo'n briodol. Mae'n bwysig golchi dwylo'n effeithiol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol megis menig untro ar

gael iddynt bob amser. Mae defnyddio cyfarpar diogelu personol, ynghyd â phrosesau golchi dwylo effeithiol, yn bwysig er mwyn lleihau achosion o heintio.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y staff glanhau yn drwyadl iawn ac yn gweithredu'n ddi-oed pan oedd gofyn iddynt ymgymryd ag unrhyw waith glanhau a allai godi, e.e. gollyngiadau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd trefniadau ar waith i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risgiau.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod unigolyn arweiniol ym maes diogelu ar gael i gynnig cymorth a chynghor ar faterion diogelu. Cadarnhawyd hefyd fod hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol yr adran.

Roedd staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau a'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryderon am les claf.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliad clinigol

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff fanylion am nifer o archwiliadau clinigol allanol a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Cynhaliwyd archwiliad mewnol o gydymffurfiaeth yr adran â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 hefyd.

Mae hyn yn cefnogi'r gofyniad i gynnal archwiliadau clinigol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Lle y nodwyd meysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt, dywedwyd wrthym fod camau wedi cael eu cymryd neu'n cael eu cymryd o ran hyn.

Roedd polisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi yn nodi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol.

Cyngor arbenigol

Roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol¹⁶ wedi'u penodi i weithio ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Roedd polisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi yn nodi rôl yr arbenigwyr ffiseg feddygol.

Dywedwyd wrthym eu bod yn rhan o bob arfer radiotherapiwtig, gan roi cyngor ar faterion o'r fath, a chyfrannu atynt, yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Gwelsom hefyd dystiolaeth ysgrifenedig yn dangos ymwneud arbenigwr ffiseg feddygol â'r gwasanaeth radiotherapi o ran hyn.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym hefyd fod modd iddynt gysylltu ag arbenigwr ffiseg feddygol i gael cyngor pan fo angen hynny.

Ymchwil feddygol

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod yr adran radiotherapi yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud ag amlygiadau meddygol, a hynny drwy dreialon clinigol ac yn unol â phrotocolau treialu cymeradwy amlddisgyblaethol.

Roedd y trefniadau ar gyfer treialon ymchwil yn cael eu disgrifio ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi. Roedd hyn yn dangos bod treialon o'r fath yn cynnwys aelodau perthnasol o'r staff ac yn cael eu goruchwyllo ganddynt.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o gofnodion gofal cleifion. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau gan yr aelodau hynny o'r staff a oedd yn ymwneud â'r amlygiad a'u bod yn cynnwys y manylion priodol.

¹⁶ Arbenigwr ffiseg feddygol yw person sydd â gradd mewn gwyddoniaeth neu gymhwyster sy'n cyfateb iddi ac sy'n cyfateb iddi a phrofiad o gymhwyso ffiseg at y defnydd diagnostig ac ymyriadol o ymbelydredd Ïoneiddio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd clir ei ddisgrifio a'i arddangos.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig a threfniadau rheoli ar waith i helpu'r adran radiotherapi i gydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, er bod trwyddedau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar gael, nodwyd gennym y gellid gwella'r trefniadau llywodraethu o ran hyn.

Roedd sylwadau'r staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r staff yn yr adran.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod nifer o swyddi yn yr adran wedi bod yn wag am gyfnod hir a bod y lefelau staffio presennol islaw'r argymhellion proffesiynol. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn rheoli hyn yn weithredol er mwyn lleihau'r effaith ar y ffordd y darperir gwasanaethau.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ac wedi cael eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni eu rolau'n ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gellid cofnodi rhagor o fanylion yn y cofnodion hyfforddiant ar gyfer oncolegwyr clinigol.

Roedd uwch-aelodau o'r staff yn monitro'n rheolaidd a oedd hyfforddiant gorfodol arall wedi'i gwblhau, ac roeddent yn cymryd camau i wella cydymffurfiaeth â safonau'r Ymddiriedolaeth o ran hyn.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd clir ei ddisgrifio a'i arddangos. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn sicrhau bod yr adran radiotherapi yn gweithredu'n effeithiol.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell.

Roedd uwch-reolwyr ar gael yn ystod diwrnodau'r arolygiad, gan hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi gofyn i uwch-aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

Gofyniad i feddu ar drwydded

O dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017, mae'n rhaid i gyflogwyr feddu ar drwydded ddilys ar gyfer pob adran lle y rhoddir sylweddau ymbelydrol. Yn yr un modd, mae'n ofynnol hefyd i ymarferwyr feddu ar drwydded i weinyddu sylweddau o'r fath.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod trwyddedau dilys ar waith mewn perthynas â'r adran radiotherapi, gan roi dogfennaeth i gefnogi hyn. Fodd bynnag, ymddangosai fod ansicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer gwneud cais am drwyddedau o'r fath a'u hadolygu. Derbyniodd uwch-aelodau o'r staff fod angen cadarnhau ac egluro'r trefniadau llywodraethu o ran hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r trefniadau llywodraethu o ran trwyddedau.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer rhoi hawl i ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd) a'u hadnabod fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

Roedd polisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi yn disgrifio'n glir y trefniadau ar gyfer rhoi hawl, gan nodi deiliaid dyletswydd yn ôl grwpiau o staff. Roedd atodiadau i'r polisi yn rhoi manylion am hawl pob deiliad dyletswydd a chwmpas ei ymarfer.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Prif weithredwr yr Ymddiriedolaeth oedd y cyflogwr dynodedig. Mae hyn yn arferol. Roedd Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio'r Ymddiriedolaeth yn nodi mai'r Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am roi gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth. Nodwyd hyn hefyd ym mholisi'r cyflogwr ynglŷn â sut y dylid rhoi Rheoliadau Ymbelydredd (Amlygiad Meddygol) 2017 ar waith yn yr adran radiotherapi.

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig clir wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Roedd y rhain yn gyfredol ac roedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi'n glir.

Amlygiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am amlygiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol¹⁷ yn yr adran, ac ymchwilio iddynt. Mae hyn yn ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.

¹⁷ <https://agic.org.uk/rhoi-gwybod-am-ddigwyddiadau-yn-ymwneud-rheoliadau-ymbelydredd-ïoneiddio-amlygiad-meddygol>

Roedd hon yn nodi'n glir y weithdrefn y dylai'r staff ei dilyn pe baent yn amau bod amlygiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol wedi digwydd. Roedd y weithdrefn yn rhoi'r arweiniad cywir i'r staff hysbysu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am ddigwyddiadau o'r fath yn amserol.

Roedd manylion amlygiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol a digwyddiadau eraill nad oeddent yn cynnwys amlygiad yn cael eu cofnodi a'u nodi drwy system gofnodi electronig yr Ymddiriedolaeth. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y byddai gwersi a ddysgwyd o amlygiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol a digwyddiadau nad oeddent yn cynnwys amlygiad yn cael eu rhannu ymhlith y staff yn yr adran radiotherapi er mwyn helpu i atal digwyddiadau tebyg rhag codi eto. Rhoddwyd enghraifft hefyd lle roedd ymarfer wedi cael ei newid mewn ymateb i amlygiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am unrhyw amlygiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol neu ddigwyddiad arall nad oedd yn cynnwys amlygiad. Cadarnhawyd eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau. Mae hyn yn dangos diwylliant agored o roi gwybod, sy'n helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwneud gwelliannau lle y bo angen.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod swyddi ar gyfer staff ffiseg feddygol ac oncoleg glinigol wedi bod yn wag am gyfnod hir (h.y. dros dri mis). Ni nodwyd bod unrhyw swyddi ar gyfer staff radiograffeg therapiwtig wedi bod yn wag am gyfnod hir. Fodd bynnag, esboniodd uwch-aelodau o'r staff fod lefelau staffio islau'r argymhellion proffesiynol presennol ym mhob un o'r tri grŵp staff uchod.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y trefniadau i leihau effaith swyddi gwag ar y ffordd y darperir y gwasanaeth. Hefyd, esboniwyd nifer o fentrau a oedd â'r nod o helpu i fynd i'r afael â'r swyddi gwag ac ateb y galw cynyddol am y gwasanaeth.

Yn ystod ein harolygiad, dangosodd y staff fod ganddynt y sgiliau priodol a chadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu priod rolau yn yr adran.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith ar gyfer nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr, a rhoi hawl iddynt.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses sefydlu ar gyfer staff newydd a staff asiantaeth.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr a oedd yn gweithio yn yr adran. Roedd y rhain yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu mewn perthynas â rhoi triniaeth a oedd yn cynnwys amlygiadau. Roedd y cofnodion hefyd yn nodi cwmpas ymarfer pob unigolyn yn glir. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth i wella cofnodion hyfforddiant ar gyfer swyddogaethau gweithredwyr sy'n oncolegwyr clinigol. Dylai'r rhain fod ar gael ar lefel tasg fel yn achos grwpiau eraill o staff (h.y. dangos yn glir elfennau cwmpas ymarfer unigolyn). Nodwyd bod gwaith wedi dechrau eisoes i fynd i'r afael â hyn.

Cadarnhaodd y staff radiograffeg fod hyfforddiant ar gael iddynt, a bod uwch-aelodau o'r staff yn eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus yn eu dewis faes gwaith.

Yn ogystal â'r hyfforddiant sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod yn rhaid i'r staff gwblhau amrywiaeth o hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth. Roedd y pynciau'n cynnwys atal a rheoli heintiau, symud a chodi, dadebru a diogelu. Roedd uwch-aelodau o'r staff yn monitro ac yn cofnodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn rheolaidd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol. Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd gan uwch-aelodau o'r staff fod cydymffurfiaeth gyffredinol islaw safon yr Ymddiriedolaeth. Roedd hyn wedi'i nodi gan uwch-aelodau o'r staff a ddywedodd ei fod yn cael ei reoli'n weithredol er mwyn gwella cydymffurfiaeth yr adran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r cofnodion hyfforddiant ar gyfer swyddogaethau gweithredwyr sy'n oncolegwyr clinigol fel y gallant ddangos yn glir elfennau cwmpas eu hymarfer.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag amlygiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig ag amlygiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Mae gwasanaethau'n cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Canolfan Ganser Felindre

Ward/adran: Yr Adran Radiotherapi

Dyddiad arolygu: 26 a 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.	-	-	-	-

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Canolfan Ganser Felindre

Ward/adran: Yr Adran Radiotherapi

Dyddiad arolygu: 26 a 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r adran radiotherapi yn cyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar y cyd â swyddog y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Cwblhawyd – Rhagfyr 2019
		Diweddarau cofrestr Canolfan Ganser Felindre o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	29 Chwefror 2020
		Bathodyn enw / gwisg pob aelod o staff	Bernadette	31 Mawrth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yr adran radiotherapi yn nodi siaradwyr/dysgwyr Cymraeg	McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	2020
		Adolygu a diweddarau'r arwyddion presennol yn yr adran radiotherapi i nodi argaeledd siaradwyr Cymraeg ar hyd llwybr radiotherapi'r claf	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Mawrth 2020
		Nodi argaeledd gwasanaethau Cymraeg ar lythyrau apwyntiad a chardiau apwyntiad cleifion.	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Mawrth 2020
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hysbysu cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.	5.1 Mynediad amserol	Bydd staff derbynfa'r adran radiotherapi yn hysbysu pob claf am unrhyw oedi ar y peiriant / ardal drin berthnasol pan fydd yn cyrraedd yn ystod y broses gofrestru safonol.	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	29 Chwefror 2020
		Gweithredu proses o wneud cyhoeddiad o fewn yr ardal aros leol a chyffredinol os bydd unrhyw newidiadau i	Bernadette McCarthy, Rheolwr	29 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		amseroedd aros mewn unrhyw ran o'r adran radiotherapi	Gwasanaethau Radiotherapi	
		Llunio proses o roi amseroedd aros radiotherapi ar hysbysfwrdd gwybodaeth electronig	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Mawrth 2020
		Bydd gwaith adnewyddu ardaloedd cynllunio cyn trin yn digwydd yn ystod 2020, a chaiff ateb digidol o ran hysbysu amseroedd aros radiotherapi yn fyw eu ystyried fel rhan o'r gwaith hwn	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Rhagfyr 2020
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hysbysu'r cleifion hynny sy'n defnyddio'r adran am weithdrefn gwyno'r Ymddiriedolaeth mewn ffordd well.	6.3 Gwrandio ar adborth a Dysgu ohono	Darparu posteri a thafleuni Gweithio i Wella GIG Cymru mewn mannau hawdd eu gweld ym mhrif ystafell aros yr adran radiotherapi a phob is-ardal aros	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Ionawr 2020
		Gosod hysbysiad wrth y brif ddesg yn nodi pwy sydd â chyfrifoldeb yn yr adran bob dydd a sut y gellir cysylltu â'r unigolyn os bydd unrhyw un yn dymuno	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau	29 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		trafod unrhyw beth	Radiotherapi	
		Gosod Bwrdd 'Dywedoch chi, Gwnaethon ni' yn ardal gyhoeddus yr adran radiotherapi a'i gadw'n fyw drwy amlinellu'r camau a gymerwyd / newidiadau a wnaed ar ôl cael adborth gan gleifion / anwyliaid	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Mawrth 2020
		Bydd pob uwch-aelod o'r staff radiotherapi a'r tîm rheoli yn cael hyfforddiant ar gwynion Gweithio i Wella (sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau cyn iddynt fynd yn fwy difrifol)	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	30 Mehefin 2020
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gynnwys manylion yng ngweithdrefnau'r cyflogwr ynglŷn â sut y dangosir awdurdodiad ar gyfer pob math o amlygiad.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Rheoliad 11	Bydd adolygiad llawn o ddogfennaeth Canolfan Ganser Felindre sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn cael ei gynnal a'i gymeradwyo drwy Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Ganolfan Ganser, a fydd yn cynnwys: Radiotherapi, Ffiseg Feddygol; a	Bernadette McCarthy, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi / Arnold Rust, Pennaeth Diogelu Rhag	31 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Chlinigwyr	Ymbelydredd	
		Caiff y canllawiau ar gyfiawnhau pob amlygiad, gan gynnwys sganiau cynllunio radiotherapi, ailsganiau a delweddu ac ati eu hehangu lle y bo angen yn dilyn yr adolygiad uchod	Tony Millin Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	31 Mawrth 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r trefniadau llywodraethu o ran trwyddedau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Rheoliad 5	Mae gweithdrefn sy'n manylu ar gynnal trwyddedau ARSAC wedi'i llunio sy'n nodi y caiff y trwyddedau eu cadw o fewn system rheoli ansawdd diogelu rhag ymbelydredd a fydd yn cysylltu â deiliad y drwydded a'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol chwe mis cyn i drwydded ddod i ben. Bydd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol Arweiniol ym maes Meddygaeth Niwclear a'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol Arweiniol ym maes Bracitherapi yn gyfrifol am sicrhau bod yr aelodau priodol o'r staff yn meddu ar y trwyddedau priodol. Mae rolau Arbenigwyr Ffiseg Feddygol ac	Tony Millin, Pennaeth Ffiseg Feddygol	31 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymarferwyr wedi'u hegluro yn y ddogfen hon. Mae pwyllgor diogelu rhag ymbelydredd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n adolygu'r ddogfen hon cyn ei chymeradwyo.		
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r cofnodion hyfforddiant ar gyfer swyddogaethau gweithredwyr sy'n oncolegwyr clinigol fel y gallant ddangos yn glir elfennau cwmpas eu hymarfer.	7.1 Y Gweithlu Rheoliad 17	Cynnal ymarfer meincnodi proses mewn Canolfannau Cancer ledled y DU	Eve Gallop-Evans, Cyfarwyddwr Clinigol Canolfan Ganser Felindre	Cwblhawyd Ionawr 2020
		Cyfeiriadur o holl Feddygon Ymgynghorol a Hyfforddeion Canolfan Ganser Felindre, yn nodi cwmpas eu hymarfer, gofynion hyfforddiant, hyfforddiant a gwblhawyd hyd yn hyn ac unrhyw fylchau mewn hyfforddiant / cymhwysedd i'w llenwi.	Eve Gallop-Evans, Cyfarwyddwr Clinigol Canolfan Ganser Felindre	31 Mawrth 2020
		Datblygu cynllun clir i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn hyfforddiant / cymhwysedd a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r holl ofynion o ran hyfforddiant / cymhwysedd	Eve Gallop-Evans, Cyfarwyddwr Clinigol Canolfan Ganser Felindre	31 Gorffennaf 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cyflwyno proses sefydlu wedi'i ffurfioli i bob aelod o'r Staff Meddygol sy'n dechrau yng Nghanolfan Ganser Felindre, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r holl fylchau mewn hyfforddiant / cymhwysedd y mae angen eu llenwi fel rhan o'r rôl yn ystod y broses sefydlu	Eve Gallop-Evans, Cyfarwyddwr Clinigol Canolfan Ganser Felindre	31 Mawrth 2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Bernadette McCarthy

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi

Dyddiad: 24/01/2020